Cynhadledd: Caffael Cynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus, Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, 23 Mawrth 2007

Adroddiad gweithdy

Adeiladu cadwynau cyflenwi cynaliadwy: Cig a Llaeth

Cadeirydd: John Davies, Canolfan Bwyd Cymru

Amlinellodd **Elizabeth Lucas**, Pennaeth Caffael, Gwasanaethau Glanhau ac Arlwyo Caerffili, sef eu prosiect peilot llwyddiannus. Rhedodd yn wreiddiol am chwe mis a'i estyn i 12. Trwy ddethol ystod o gynhyrchwyr, trefnodd Caerffili gyfres o weithdai hyfforddi er mwyn dymchwel rhwystrau i gaffaeliad cyhoeddus a hysbysu'r cynhyrchwyr ynghylch yr hyn oedd ei angen. Canlyniad y cynnydd mewn cynnyrch lleol oedd ymateb ffafriol gan y gwasanaethau cymdeithasol, y cartrefi gofal a'r cartrefi plant. Gyda'r newid mewn agwedd, ac ymrwymiad y swyddogion cyhoeddus a'r cyflenwyr i gydweithio, nid yw caffaeliad cyhoeddus yng Nghaerffili yn 'fater diflas' mwyach.

Cynrychiolodd y tri siaradwr nesaf y darparwr a'r cynhyrchwyr. Amlinellodd **Edward Morgan**, Castell Howell, dyfiant y busnes dros yr 20 mlynedd diwethaf. Cyfaddefodd yr her i ddod o hyd i ddigon o gynnyrch Cymreig, a phwysleisiodd yr angen i gynnal ansawdd y cynnyrch a darganfod marchnad ar gyfer y burgyn cyfan. Cynigiodd **Graham Titchener,** Hybu Cig Cymru, gymorth i gynhyrchwyr trwy ddatblygu manyleb ar gyfer rheoli ansawdd, a chysylltu trefniadaethau gyda chyflenwyr. Amlinellodd eu prosiect cyfredol, sy'n ymwneud â tharddle'r cynnyrch. Yn olaf siaradodd **Dai Miles**, Calon Wen, llaethdy cydweithredol bychan gydag 20 o aelodau, a'r llaethdy cyntaf yn y DU i gyrraedd safon Symbol Masnach Foesegol Cymdeithas y Pridd. Ei neges oedd nad yw mawr yn hardd bob amser, a bod bach yn gallu gwerthu'n llwyddiannus i'r siopau cadwyn. Gwneir hynny trwy sicrhau pris tymor hir rhesymol ar gyfer ffermwyr ynghyd ag ymrwymiad i'r gymuned leol a thrywydd archwilio ddiogel.